# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 1 & 2 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mai 2023

Amser: 10.35

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod: (10:20 - 10:35)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10:35)

## 2 Papurau i'w nodi

(10:35)

**2.1 Gohebiaeth oddi wrth Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) at y Cadeirydd ynghylch cyfiawnder data**

(Tudalennau 1 - 4)

**2.2 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a’r Cadeirydd ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd**

(Tudalennau 5 - 7)

**2.3 Gohebiaeth oddi wrth y Comisiynydd Plant at y Cadeirydd ynghylch adroddiad diweddar y Pwyllgor: 60% - Rhoi llais iddyn nhw Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid**

(Tudalen 8)

**2.4 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus**

(Tudalennau 9 - 11)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.5 Gohebiaeth rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cadeirydd ynghylch craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(Tudalennau 12 - 19)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd am weddill y cyfarfod

(10:35)

**Egwyl (10:35- 11:00)**

## 4 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: Grŵp cynghori

(11:00-13:00) (Tudalennau 20 - 50)

**Egwyl ar gyfer cinio (13:00 - 14:00)**

## 5 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: Trafod y dystiolaeth

(14:00- 14:20)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus - ystyried y dull gweithredu

(14:20- 14:35) (Tudalennau 51 - 57)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon - ystyried y dull gweithredu

(14:35-15:00) (Tudalennau 58 - 75)

Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig
Pumed Llawr
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 4DQ

British Medical Association
Fifth Floor
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff Bay
Cardiff
CF10 4DQ

BMA
Cymru Wales

**Equality and Social Justice Committee**
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

20 April 2023

# Data justice and use of personal data in the Welsh NHS

**Dear Chair**

GPC Wales, the representative body for general practitioners in Wales, are very interested in the committee's short inquiry on personal data in NHS Wales. We welcome your interest and work in this developing area and would like to provide the committee with an insight as to the complexities and risks on this important matter from a GP perspective.

Firstly, I would like to make clear that we are wholly aligned with the theoretical concept of safe and legal access for patients to their own medical information. The GP record is widely acknowledged to be the most consistent and life-long patient record in the health sector.

## 1. Current situation regarding Data access

Patients can currently access a limited dataset of their medical records - potentially including Medication data, summaries of conditions and other functionality like appointment booking - via MyHealthOnline (MHOL) or the NHS Wales App, if their practice is part of the ongoing beta testing stage.

They can obtain their full medical record via Subject Access Requests (SAR) under GDPR. GPs have 28 days (or 84 in complex cases) to comply with SAR requests.

However, there are challenges with this as the all-encompassing GP record often contains data which needs removal or redaction.

**Cyfarwyddwr Cenedlaethol (Cymru)/National director (Wales):**
Rachel Podolak

Cofrestrwyd yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant. Rhif Cofrestredig: 8848 Lloegr
Swyddfa gofrestredig: BMA House, Tavistock Square, Llundain, WC1H 9JP.
Rhestrwyd yn Undeb Llafur o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur 1974.
Registered as a Company limited by Guarantee. Registered No. 8848 England.
Registered office: BMA House, Tavistock Square, London, WC1H 9JP.
Listed as a Trade Union under the Trade Union and Labour Relations Act 1974.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig
British Medical Association

It is not uncommon to find data within a patient's record which might breach the data rights of third parties, for example:

- misfiled documents
- references to family members or neighbours
- telephone numbers of relatives
- complex child protection documents containing lots of third-party data, often of a highly sensitive nature.

Before GPs can share these data with the data subject (i.e., the patient) they must ensure that all third-party references are redacted or removed (in the case of a misfiled document). Redaction is currently largely manual and incredibly labour intensive – with many GPs personally having spent hours redacting single instances of multi-volume records in response to SAR requests.

This results in GPs often being required to use valuable time for these tasks that could otherwise be used for delivering direct patient care.

## 2. GP data controller role and potential sanctions

Under GDPR regulations, GP partners (who hold GMS contracts) are considered as the data controllers for any data that they hold about their patients[1].

Therefore, if GPs breach GDPR regulations they are **personally liable** to be reported to the Information Commissioner's Office (ICO) who can investigate and sanction. The potential sanctions from the ICO range from advice, public criticism, and ultimately financial sanction, of which the current maximum levy is **30million Euro** or **10% of annual turnover**. As this is a criminal levy, GPs are unable to gain indemnity insurance for this through the state-backed General Medical Practice Indemnity (GMPI) scheme or the Medical Defence Organisations. Therefore, while breaches of GDPR may be a low-level occurrence risk prospect, they would have catastrophic potential for individuals and practices- and ultimately patients- with personal bankruptcy and collapse of practices being very real prospects

GPs must of course also consider the Common Law Duty of Confidentiality.

GPs need to be sure that only the patient themselves can access the record via appropriate safeguards. If not, GPs face regulatory risk from the GMC. Family member access for sensitive information would be highly difficult to grant given these obstacles.

## 3. What needs to be in place to proceed with safe patient-level record access in Wales?

It is our view that plans for full record access would probably have to be on an 'OPT-IN' and informed consent-based model, itself probably highly labour-intensive.

[1] See also BMA guidance 'GPs as data controllers under the General Data Protection Regulation' (March 2018) www.bma.org.uk/media/1827/bma-gps-as-data-controllers-under-gdpr-november-2019.pdf

GPC Wales would therefore require the following to comply with wider patient-level records access:

- Support and resource to redact (prior to GDPR, SARs were chargeable which mitigated this)
- Effective technological solutions on redaction to reduce this burden (this is still a long way off, with similar schemes being proposed in NHS England more than four years ago but still not having been delivered)
- Legal change to remove the risk under GDPR (this is no less complex post-Brexit)
- Information Governance reassurance around properly authenticated access to the NHS app
- Opt-in consent to engage with resourced time to discuss ramifications

If all the above were granted, a staged approach of patient data access would still be necessary to satisfy the risk concerns of data controllers. One potential starting point would be with prospective records (i.e., those going forward) only being accessed initially.

Much of the data which would be available to patients is extremely complex and often requires a medical degree or training to appropriately interpret it. Access to such data without the appropriate knowledge or support can, in our experience, often result in additional concern and anxiety for patients. This is a very real outcome which should be considered as part of any further action in this area. We are reassured that the NHS Wales app, currently in public beta testing phase, will only proceed with summary record access once a GP practice has enabled the functionality. We strongly advise that only summary and coded data including vaccinations, would be in scope for the NHS Wales app until all these issues are addressed to our full satisfaction before allowing full record access.

## 4. What is happening in England?

In England, the multi-year GP contract signed in 2019 included a clause to turn on patient access to records via the NHS England app from 1 November 2022 on the promise that redaction software would be in place.

This technological solution has not yet become available, but NHS England has proceeded with the mass switch on despite the major concerns of practices, LMCs and GPC England.

The outcome has been that many GPs in England have chosen to delay their involvement at this stage as they do not feel ready. The BMA has recently issued guidance on how to do this.

**Lessons can be learnt from England, and therefore any actions in Wales must see GPs being part of the process so that they feel confident and ready to support these changes.**

## 5. Data use for Health and Social care planning

Finally, sharing patient level data is going to be vital in ensuring a data led planning process for NHS and Social Care in the future. Developments such as the **National Data Resource** (NDR) and the SAIL databank are welcome in acting as a repository to enable efficient and accurate planning and research to take place. This can only function when confidential patient data is shared and linked to other data sets in Primary Care, Secondary care, and Social Care.

This requires data governance and safety to be engineered into the process from the outset and an honest debate with the public held so they are aware their medical records will be used for this purpose with safeguards and individual confidentiality maintained.

To date, SAIL has demonstrated itself to be a trusted research environment with effective safeguards and processes allowing safe access to data, leading to high levels of GP practice engagement. However, GPs have seen little tangible use of SAIL to benefit their populations directly given that level of engagement to date. **This should be addressed by Welsh Government (as the funding body) to mandate usage for NHS planning purposes where necessary.**

The processes to use these data sources for the NDR are being developed. However, to date we feel that progress has been made without the commensurate Information Governance Safeguards and necessary legal changes to satisfy GPC Wales that the risks to GPs in sharing data have been sufficiently mitigated.

**The need to override the Common Law Duty of Confidentiality for GPs as data controllers needs to be lawful and explicit, as without this, attempts to enable data sharing from Primary Care are doomed to fail.**

**This also in our view requires a large-scale information campaign and consultation process with the Welsh public, similar to that undertaken during the presumed consent Organ Donation changes. We feel it is of similar importance and of similar transformational value to the NHS in the longer term.**

Should the committee require any further information or feedback on this matter either now or in the future, GPC Wales remains ready and willing to support your work.

Yours sincerely



**Dr Ian Harris**
**Deputy Chair,**
**General Practitioners Committee Wales**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/127/2023

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

26 Ebrill 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth, yn gofyn am eglurhad i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Rwy'n disgwyl caffael cynllun newydd, sy'n cael ei arwain gan y galw sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd hyn yn galluogi dyfarnu'r cynllun newydd ddiwedd yr hydref a'i roi ar waith dros y gaeaf gyda disgwyl cyflawni'r ddarpariaeth o ddiwedd y gaeaf. Rwyf wedi ymestyn y cytundeb Nyth presennol ymhellach hyd at ddiwedd Mawrth 2024 i sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a rhaglenni presennol.

Mae fy swyddogion wedi rhoi cyfres o ddogfennau imi gan gynnwys datganiad polisi, a fydd yn llywio dyluniad manwl y rhaglen. Rwy'n disgwyl cyhoeddi'r rhain yn fuan a bydd y datganiad polisi yn rhoi mwy o eglurder.

O ran y rheoliadau, rwy'n disgwyl gosod y ddeddfwriaeth ddiwygiedig i'w ystyried gan y Senedd yn ystod yr haf.

Yn olaf, mae camau gweithredu y cynllun tlodi tanwydd yn parhau i fodoli i raddau helaeth, a'm bwriad yw manteisio ar y cyfle i gydlynu camau tlodi tanwydd gyda gweithredoedd ehangach i fynd i'r afael â thlodi ledled Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn yr hydref.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

31 Mawrth 2023

Annwyl Julie

Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mae dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd (WHP) ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd o ddiddordeb mawr i'n Pwyllgor ac i'r rhanddeiliaid yr ydym yn ymgysylltu â hwy.

Mae'r argyfwng costau byw a waethygir gan gynnydd mwyfwy mewn biliau cynhesu tai â goblygiadau ar gyfer cyllid aelwydydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu ar frys i insiwleiddio cynifer o gartrefi â phosibl cyn y gaeaf nesaf. Daeth y rhaglen Arbed i ben ym mis Tachwedd 2021 ac mae cynllun Nyth i ddod i ben ddiwedd y mis hwn. Felly rydym yn ei chael hi'n anodd deall sut yr ydych yn bwriadu sicrhau nad oes dim bwlch yn y ddarpariaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym yn bryderus iawn ynghylch y diffyg eglurder parhaus ynghylch dyfodol y cynllun a'r methiant i osod amserlen glir ar gyfer y cynllun olynol.

Felly, byddwn yn croesawu cael ymateb i'r canlynol:

- Pryd fydd y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf yn dechrau? Beth yw'r dyddiad cychwyn disgwyliedig?
- Pryd fydd cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn dod i ben? A yw Nyth wedi'i ymestyn y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen gwreiddiol, sef mis Mawrth 2023?
- A fydd bwlch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer effeithlonrwydd ynni i aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd? Sut y byddwch yn lliniaru effaith y bwlch hwn dros fisoedd yr haf?

- Pryd y byddwch yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu tlodi tanwydd diwygiedig, (roedd eich ymateb i argymhelliad 2 yn ein hadroddiad yn nodi "yn 2023")?

- Yn ystod y Datganiad Busnes ar 21 Mawrth 2023 cadarnhaodd y Trefnydd y byddech yn cyflwyno datganiad ar y cynllun "cyn diwedd tymor yr haf". A fydd y datganiad hwn yn cynnwys manylion terfynol yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys arwydd clir o ba mor fuan y gellir rhoi'r cynllun ar waith? Os nad ydyw, a allwn gael dyddiad pendant ar gyfer cyflwyno rheoliadau i greu iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?

Er bod y gwaethaf o'r tywydd oer yn y gorffennol o ran gaeaf 2022-23, mae'r rhagolygon ar gyfer llawer o aelwydydd yn parhau i fod yn heriol. Mae'n hanfodol ein bod mewn sefyllfa i helpu i gefnogi cynifer o aelwydydd â phosibl gyda mesurau effeithlonrwydd ynni yn y misoedd nesaf, cyn y gaeaf nesaf. Felly, rydym yn eich annog i egluro bwriadau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dechrau tymor yr haf, sef 24 Ebrill 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Jenny Rathbone AS

Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru

**Trwy e-bost yn unig**

3 Mai 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr yn tynnu sylw at adroddiad diweddar y Pwyllgor sy'n trafod pobl ifanc, anghenion iaith a lleferydd a'r system cyfiawnder troseddol. Hoffwn ddiolch i chi a'r pwyllgor am fwrw goleuni ar y mater pwysig hwn.

Ni fyddem am ddyblygu eich gwaith wrth ymateb i'r mater hwn, ond byddem ni'n barod i ysgrifennu at y bwrdd cyfiawnder ieuenctid a/neu fyrddau partneriaeth rhanbarthol i rannu'r bylchau mae eich adroddiad yn eu hamlygu, os nad yw'r pwyllgor eisoes wedi gwneud hynny. Mae'r materion mae'r pwyllgor yn eu codi yn cyd-fynd ag adroddiadau *Dim Drws Anghywir* fy swyddfa yn 2020 a 2022.

Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen ymateb Llywodraeth Cymru i'ch argymhellion.

Fel rhan o loywi ein strategaeth ymgysylltu, byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid neu mewn perygl o fynd iddi, gan sicrhau eu bod yn gwybod am eu hawliau, a mynd ar ôl unrhyw faterion maen nhw neu'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw yn eu codi gyda ni.

Dymuniadau gorau,

Rocio Cifuentes

Rocio

Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

3 Mai 2023

Annwyl Jane,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus

Fel y gwyddoch, gofynnwyd i'm Pwyllgor ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus; dechreusom ar ein hystyriaeth yn ein cyfarfod yr wythnos hon.

Gwnaethom nodi ichi ddweud y canlynol ym mharagraffau 24 a 25 o'r Memorandwm:

> *"Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 4 (dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â chychwyn cymalau 1 a 3), lle mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn y cyddestun hwn, er bod hwn yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn.*
>
> *Bydd copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio'r pwerau cychwyn o fewn cymal 4 o'r Bil ar gael i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad."*

Nid ydym eto wedi derbyn copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y paragraffau hyn o'r Memorandwm.

O gofio bod angen inni gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Mai, byddwn yn ddiolchgar o gael copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn bore Mercher 10 Mai.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan fod y Memorandwm wedi'i gyfeirio at y pwyllgor hwnnw hefyd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

09 Mai 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â'r pwerau cychwyn ar gyfer y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus.

Rwy'n ddiolchgar ichi am ystyried y Bil hwn a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei sgil. Bydd creu trosedd ar gyfer y rhai sy'n aflonyddu ar sail rhyw ar ein strydoedd ac yn ein mannau cyhoeddus yn sicrhau bod menywod a merched yn cael y lefel briodol o ddiogelwch. Bydd hefyd yn cyfleu'r neges na fydd ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef.

Yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlen y Bil hwn yn Nhŷ'r Arglwyddi, estynnodd Pwyllgor Busnes y Senedd y dyddiad cau ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i 8 Mehefin. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithio ar eiriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau er mwyn dechrau'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Bydd hyn ar gael ichi ar y cyfle cyntaf a chyn y dyddiad cau diwygiedig.

Mae diogelu menywod a merched rhag camdriniaeth, mewn mannau cyhoeddus a phreifat, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i ehangu'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys aflonyddu a cham-drin ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref, er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Mai 2022 ac mae i'w gweld yma: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW. CYMRU.

Dylai menywod a merched fod yn saff ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys mewn mannau cyhoeddus, a dim ond un rhan o'n huchelgais i gyflawni'r nod hwn yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Trwy e-bost

24/04/23

Annwyl Jenny,

Diolch yn fawr iawn am eich llythyr dyddiedig 23 Mawrth 2023. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn ysgrifennu i roi rhagor o fanylion i mi am y pwyntiau a godwyd gennych fel rhan o'r broses graffu.

**Tryloywder**
Mae'r pwynt a wnewch am dryloywder a chraffu yn un pwysig. Rwyf am fod yn dryloyw ynghylch y cyfarfodydd a gaf gyda Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Fel chithau, yr wyf yn awyddus i atal y broses hon rhag dod yn or-fiwrocrataidd. Mae fy nghydweithwyr eisoes wedi bod yn siarad â swyddogion yn Llywodraeth Cymru am sut yr ydym yn gwneud hynny. Mae'r mater hwn yn dal i gael ei drafod. Fodd bynnag, rwyf am eich sicrhau fy mod yn bwriadu cofnodi fy nghyfarfodydd a'm cyfathrebiadau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, a byddaf yn cyhoeddi'r cofnod hwn ar fy ngwefan. Rwyf wedi cynnwys tabl yn Atodiad A sy'n rhoi gwybodaeth i chi am y cyfarfodydd Gweinidogol yr wyf wedi'u cynnal ers dechrau yn fy swydd ar 1 Mawrth.

Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at ganfyddiad bod gormod o amser Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei neilltuo i gefnogi Llywodraeth Cymru er anfantais i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn talu sylw manwl iddo. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud, ar dystiolaeth yr ychydig wythnosau diwethaf nid dyma'r argraff sydd gennyf. Rwyf wedi gweld llawer iawn o waith yn cael ei wneud i gefnogi'r ystod gyfan o gyrff cyhoeddus. Er enghraifft, mae fy nhîm ar hyn o bryd yn darparu swm sylweddol o gyngor a chymorth i BGC i'w cefnogi drwy'r ail gylch o gynllunio llesiant, gan arwain at gyhoeddi eu cynlluniau llesiant newydd ym mis Mai 2023. (Gwybodaeth fwy manwl am y proses a'n rôl ynddi, wedi'i nodi yn Atodiad B isod).

Wrth flaenoriaethu fy amser fy hun, rwyf wedi sicrhau fy mod yn cyfarfod ag ystod eang o gyrff cyhoeddus. Ar fy niwrnod cyntaf fel Comisiynydd, ysgrifennais at bob corff cyhoeddus a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w gwahodd i gwrdd â mi, i drafod ein hanghenion ar y cyd a'n rhaglenni gwaith. Roedd fy nghyfarfodydd cyntaf gydag Amgueddfa Genedlaethol

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ers dechrau fy rôl, rwyf wedi cyfarfod â 26 o gyrff cyhoeddus, 2 Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac uwch gynrychiolwyr y Cydbwyllgorau Corfforaethol. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu. Yn atodiad C rwyf wedi darparu rhestr o’r cyrff cyhoeddus yr wyf wedi cyfarfod â hwy yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf.

**Gweledigaeth ac ymagwedd**

Mae’r cyfarfodydd a’r ymgysylltiadau hyn yn rhan bwysig o’r broses ‘Ffocws Ein Dyfodol’ yr wyf wedi’i lansio. Rwy’n achub ar y cyfle i adnewyddu ein hymagwedd at yr hyn a wnawn ac i nodi meysydd ffocws newydd. Rwyf am adeiladu ar lwyddiant y saith mlynedd diwethaf a rhoi mwy fyth o ffocws ar weithredu. Bydd yr ymarfer Ffocws Ein Dyfodol yn ein helpu i wneud penderfyniadau am y ffordd fwyaf effeithiol o ddyrannu ein hamser a’n hadnoddau i gael yr effaith fwyaf ar lesiant cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Bydd hyn yn dechrau proses barhaus o gyfranogiad bydd yn arwain at Adroddiad nesaf Cenedlaethau’r Dyfodol (2025) a thu hwnt. Rwy’n bwriadu lansio fy mlaenoriaethau newydd yn yr Hydref. Edrychaf ymlaen at drafod y blaenoriaethau a’r dangosyddion perfformiad hyn gyda’r Pwyllgor maes o law.

Mae’r sgyrsiau hyd yma gyda Phrif Weithredwyr ac arweinwyr ledled Cymru wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd cefnogaeth barhaus fy nhîm cyrff cyhoeddus ymroddedig ac i gyflymu’r cymorth i gyrff cyhoeddus gyda’r adnoddau ymarferol i ddyfnhau gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Edrychaf ymlaen at barhau fy sgyrsiau gyda chyrff cyhoeddus dros y misoedd nesaf wrth i mi ddatblygu fy rhaglen waith. Byddaf hefyd yn parhau â’r sgyrsiau gwerthfawr yr wyf yn eu cael â’r rheini y tu allan i’r sector cyhoeddus, gan gynnwys pobl ifanc, sefydliadau gwirfoddol, y byd academaidd a’r sector preifat.

Mae fy nhîm hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i baratoi'r cyrff cyhoeddus newydd a fydd yn ymuno â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Yn ogystal â chyfarfod â Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion y cyrff hyn fy hun, mae’r gwaith hwn yn cynnwys neilltuo cyswllt arweiniol corff cyhoeddus i’r cyrff ychwanegol i sefydlu perthnasoedd, darparu cymorth cychwynnol drwy rannu ein hadnoddau a darparu cyngor ac arweiniad ar eu gwaith i weithredu’r Ddeddf hyd yma. Rydym hefyd yn datblygu rhaglen hyfforddi i’w cefnogi hwy a chyrff cyhoeddus eraill a rhanddeiliaid i roi’r Ddeddf ar waith a’i sefydlu.

Comisinydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Ymgysylltu yn y dyfodol**

Hoffwn barhau â'r ymgysylltu adeiladol a fu rhwng fy rhagflaenydd a'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at gryfhau'r ymgysylltiad hwnnw yn y blynyddoedd i ddod. Rwyf eisoes wedi cysylltu â'r Pwyllgor i drefnu cyfarfod gyda chi, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd rhagarweiniol o fewn fy 6 mis cyntaf gyda holl gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd.
Yn olaf, hoffwn dderbyn eich cynnig i gyfarfod yn anffurfiol ag Aelodau'r Pwyllgor, a fyddai'n gyfle da i drafod fy rhaglen waith newydd gyda chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**ATODIAD A: Llywodraeth Cymru**

Mae cyfarfodydd gweinidogol ers 1 Mawrth 2023 yn cynnwys:

| Gweinidog | Dyddiad | Pynciau trafod |
|---|---|---|
| Rebecca Evans AS | 20/03/2023 | Rhagarweiniol, Cyllideb Llywodraeth Cymru, Academi Wales |
| Mark Drakeford AS | 22/03/2023 | Rhagarweiniol, Adolygiad Adran 20, |
| Lesley Griffiths AS | 29/03/2023 | Rhagarweiniol, Mesur Afonydd, Amaethyddiaeth |
| Hannah Blythyn AS | 30/03/2023 | Mesur Rhagarweiniol, Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael |

**ATODIAD B: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Asesiadau llesiant

- Cyhoeddodd BGC eu hail asesiadau llesiant ym mis Mai 2022.
- Ym mis Mawrth 2021, anfonwyd llythyr ar y cyd at bob BGC wedi'i lofnodi gan y Comisiynydd a Gweinidog Cymru, yn nodi'r hyn yr oeddem yn disgwyl ei weld yn yr asesiadau.
- Fe wnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu perthynas 'adeiladol a chyson' gyda BGC, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
- Rhoesom gyngor manwl i BGCau ar y rhain rhwng Rhagfyr 2021 ac Ebrill 2022. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau unigol a anfonwyd at bob BGC yn canolbwyntio ar yr hyn oedd yn dda a meysydd y gellid eu datblygu ymhellach.
- Buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, Iechyd Cyhoeddus Cymru, WCPP, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill.
- Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad trosfwaol yn asesu polisi, prosesau, arfer da, heriau cyfredol a chymhariaeth rhwng asesiadau 2017 a 2022.
- Derbyniad da gan BGC.

Cynlluniau llesiant: cyfnod cyngor statudol gydag OFGC

- Yn 2022, sbardunodd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cyfnod cyngor statudol o 14 wythnos gyda'n swyddfa (rhwng Mehefin a Rhagfyr 2022).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

- Mabwysiadwyd dull iteraidd gennym, gan weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chwrdd â hwy drwy gydol y cyfnod cynghori.
- Cyhoeddi cyngor ar ddiwedd y 14 wythnos, yn crynhoi'r trafodaethau a'r pynciau a archwiliwyd. Ffocws cryf ar y pum ffordd o weithio, ond hefyd ar bynciau a themâu.
- Ymagwedd yn cael derbyniad da gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, e.e. *"Rydym wedi ei chael yn broses fwy adeiladol y tro hwn ac yn teimlo bod y dull a fabwysiadwyd wedi datblygu perthynas gryfach rhyngom ni a'ch tîm."* BGC Bro Morgannwg.
- Cydweithio parhaus gyda phartneriaid allweddol, gan ymgorffori negeseuon allweddol yn ein cyngor.

Cynlluniau llesiant: ymgynghoriadau cyhoeddus

- Mae pob BGC yn ymgynghori'n gyhoeddus ar eu cynlluniau llesiant drafft, am o leiaf 12 wythnos.
- Rhwng Ionawr a Mawrth 2023, fe wnaethom ddarparu ein cyngor statudol i BGC ar eu hymgynghoriadau cyhoeddus, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud gyda nhw hyd yma.

Bydd cynlluniau llesiant terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2023.

**ATODIAD C: Cyfarfodydd Sector Cyhoeddus (Ers 1 Mawrth 2023)**

Cyrff Cyhoeddus

- Amgueddfa Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Mynwy
- Cyfoeth Naturiol Cymru

- Cyngor Dinas Casnewydd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

23 Mawrth 2023

Annwyl Derek

Croeso i'ch rôl newydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roeddem yn falch o gael y cyfle i gyfarfod â chi fel rhan o'r broses cyn penodi ac roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol nodi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r materion a godwyd gennym fel rhan o'r gwaith craffu hwnnw, wrth i chi ddechrau yn eich swydd newydd.

Tryloywder

Argymhellwyd yn ein hadroddiad, er mwyn cynorthwyo tryloywder y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru a chraffu arni, y dylech ystyried sut y mae busnes gyda Gweinidogion yn cael ei gynnal, gan gynnwys sut y caiff cyfarfodydd a negeseuon eu cofnodi a'u datgelu. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn dyddio'n ôl i argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd flaenorol ddwy flynedd yn ôl.

Rydym am sicrhau bod cyrff cyhoeddus eraill yn gwella eu dealltwriaeth o berthnasedd y Ddeddf i'w gwaith, yn enwedig gan fod y sefyllfa gyllidebol heriol yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gymhwyso'r Ddeddf i'r eithaf er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Hoffem awgrymu eich bod yn cyhoeddi crynodeb chwemisol o'r holl fusnes gyda Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys: dyddiad a hyd y cyfarfod, rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol; ei ddiben a'r pynciau y rhoddwyd sylw iddynt; a chrynodeb o unrhyw ohebiaeth ddilynol a/neu bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod. Er cyd-destun, byddem yn gobeithio gweld rhywfaint o dystiolaeth bod o leiaf yr un amser yn cael ei neilltuo i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ofyniad arferol i Gomisiynwyr Cymru, (nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn atebol i'r Pwyllgor hwn) a byddwn yn fwy na pharod i drafod sut rydym yn atal hyn rhag dod yn ymarfer rhy fiwrocrataidd neu feichus.

Gweledigaeth a dull gweithredu

Yn ein hadroddiad, gwnaethom hefyd alw arnoch i nodi eich gweledigaeth gyffredinol a'ch dull o ymdrin â'r rôl yn y chwe mis cyntaf yn y swydd, yn ogystal â'r canlyniadau yr hoffech eu cyflawni yn ystod eich cyfnod yn y swydd a dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu cadarnhau eich cynlluniau yn hynny o beth, a byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y rhain â chi ymhellach maes o law.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Ymgysylltu yn y dyfodol

Roeddem yn ddiolchgar am y gwaith ymgysylltu adeiladol a gynigiwyd gan eich rhagflaenydd, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith gyda chi a'ch swyddfa i'r un perwyl. Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod ag aelodau o'r Pwyllgor yn anffurfiol rywbryd yn ystod tymor yr haf ac, os ydych yn gytûn, byddaf yn gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i ddod o hyd i amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon